



**Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Bro Morgannwg**

**3 Mai 2023**

**Cofnodion**

<b>Yn bresennol:</b>		
<b>Enw</b>	<b>Teitl</b>	<b>Sefydliad</b>
Y Cynghorydd Lis Burnett (LB)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Suzanne Rankin (SR)	Prif Weithredwr	BIP Caerdydd a'r Fro
Rob Thomas (RT)	Prif Weithredwr	Cyngor Bro Morgannwg
Y Cynghorydd Shirley Hodges (SH)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref y Barri
Charles Janczewski (CJ)	Cadeirydd y BIP	BIP Caerdydd a'r Fro
Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau'r Gweithlu	Llywodraeth Cymru
Fiona Kinghorn (FK)	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
Estelle Hitchon (EH)	Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu	Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Robert Wilkinson (RW)	Arweinydd Cynllunio Gwasanaeth	BIP Caerdydd a'r Fro
John Treherne (JT)	Rheolwr Grŵp	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Mike Evans (ME)	Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth y De	Cyfoeth Naturiol Cymru
Estella Enos (EE)	Dirprwy Bennaeth De Cymru Un	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Wayne Carter (WC)	Pennaeth yr Adran Ehangu Cyfranogiad	Coleg Caerdydd a'r Fro
Martyn Stone (MS)	Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru
<b>Hefyd yn bresennol:</b>		
Tom Bowring (TB)	Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol	Cyngor Bro Morgannwg
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Andreas Pieris-Plumley (APP)	Intern Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Lloyd Fisher (LF)	Uwch Swyddog Data a Pholisi	Cyngor Bro Morgannwg

Meredith Gardiner (MG)	Pennaeth Partneriaethau a Sicrwydd	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
Sian N Clemett-Davies (SCD)	Swyddog Bro Oed-gyfeillgar	Cyngor Bro Morgannwg
<b>Ymddiheuriadau:</b>		
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Eirian Evans (EE - GPC)	Pennaeth De Cymru Un	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Marie Davies (BIP)	Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Emil Evans (EE - CCF)	Dirprwy Bennaeth	Coleg Caerdydd a'r Fro

Rhif	Eitem Agenda	Camau Gweithredu
1.	<p><b>Croeso a Chyflwyniadau</b></p> <p>Croesawodd LB bawb i gyfarfod y BGC.</p>	
2.	<p><b>Ymddiheuriadau am Absenoldeb</b></p> <p>Gweler uchod.</p>	
3.	<p><b>Cofnodion Cyfarfod y BGC ar 27 Chwefror 2023</b></p> <p>Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod.</p> <p><b>Diweddariad ar ddigwyddiadau ar Heol Holltwn</b></p> <p>Esboniodd MS fod digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau wedi cyrraedd uchafbwynt ym mis Chwefror a mis Mawrth ond bod data ar gyfer mis Ebrill wedi dangos gostyngiad sylweddol. Mae teledu cylch cyfyng yn cael ei fonitro a'i adolygu er mwyn nodi pobl dan amheuaeth a chysylltwyd â'r ysgolion i helpu i nodi pobl ifanc sy'n gysylltiedig. Mae gweithwyr achos wedi mynychu cynhadledd gyda phobl ifanc i ddeall y cefndir a chynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu yn Sgwâr y Brenin i helpu gyda'r broses nodi. Mae Bro Ddiogelach wedi postio ar y cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at yr ymddygiad gwrthgymdeithasol ac i annog pobl i roi gwybod amdano. Esboniodd MS yr hoffent weld gweithgaredd ymddygiad gwrthgymdeithasol galw hebio parhaus 3 mis i gadarnhau bod eu gwaith wedi mynd i'r afael â'r broblem yn effeithiol.</p> <p>Dywedodd JT wrth y partneriaid nad oes unrhyw ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod ar Heol Holltwn y bu'n rhaid i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ddelio â nhw.</p>	

	<p>Gofynnodd FK a yw'r partneriaid yn ymwybodol o pam mae'r ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd.</p> <p>Esboniodd MS nad yw'n ymddygiad gwrthgymdeithasol nac yn droseddu cyfundrefnol. Mae achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cynyddu ychydig ar yr un pryd sydd wedi creu cynnydd cyffredinol amlwg. Mae'r amseru wedi dod â'r mater hwn i'r amlwg.</p>	
<b>4.</b>	<p><b>Cymeradwyo'r Cynllun Lles newydd</b></p> <p>Bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi ar wefan y BGC a bydd datganiad i'r wasg ac, ar 14 Mehefin, bydd y Cynllun yn cael ei lansio'n swyddogol. Diolchodd TB i'r partneriaid a'r swyddogion am gyfrannu ac ysgrifennu'r cynllun gyda diolch i Cyfoeth Naturiol Cymru am eu sylwadau cadarnhaol.</p> <p>Cydnabu LB fod y cynllun wedi'i gymeradwyo gan y partneriaid.</p>	
<b>5.</b>	<p><b>Cynllun Ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh)</b></p> <p>Esboniodd MG fod y cynllun wedi'i gymeradwyo gan y BPRh fel drafft terfynol a'i fod wedi'i argymhell i BGC Caerdydd, BGC y Fro, pwyllgorau perthnasol, a'r bwrdd iechyd. Bydd yn mynd drwy'r rhain i'w gymeradwyo cyn mynd yn ôl i'r BPRh i'w gymeradwyo'n derfynol. Esboniodd MG drosolwg o waith ychwanegol a ychwanegwyd at y ddogfen yn dilyn argymhellion blaenorol a dangosodd sut mae ymrwymadau yn y cynllun ardal a'r BPRh yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ddau BGC. Mae gwaith yn parhau i gael ei wneud i greu'r cynllun cyflawni a fydd yn cyd-fynd â'r cynllun ardal ac yn cynnwys amserlenni camau gweithredu.</p> <p>Canmolodd FK y cynllun a mynegodd werthfawrogiad am yr hygyrchedd, gan dynnu sylw at y ffaith y bydd y dangosyddion a ddefnyddiwyd yn allweddol.</p> <p>Adleisiodd LB y ganmoliaeth ar gyfer y cynllun, gan gydnabod ei fod wedi'i ysgrifennu'n dda ac yn hawdd ei ddilyn gydag adran dda ar ymrwymadau.</p> <p>Dywedodd RT ei bod yn dda gweld cysylltiadau â chynlluniau'r ddau BGC a chanmolodd y gwaith a wnaed i adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng y cyfeiriad strategol yng Nghaerdydd a'r Fro gan fod blaenoriaethau gwahanol yn y ddwy ardal.</p> <p>Adleisiodd CJ y sylwadau a wnaed gan LB a RT.</p> <p>Cymeradwywyd y cynllun gan y partneriaid.</p>	
<b>6.</b>	<p><b>Bro Oed-gyfeillgar</b></p> <p>Esboniodd SCD fod y data'n dangos bod disgwyl i nifer y bobl sy'n 65 oed a hŷn sy'n byw yn y Fro gynyddu 22% erbyn 2030 ac mai dyma'r ail gynnydd mwyaf a ddisgwylir yng Nghymru, gyda disgwyl i nifer y bobl dros 80 oed gynyddu 39%.</p> <p>Mae gan lawer o bobl hŷn a phobl iau flaenoriaethau cyffredin fel trafndiaeth gyhoeddus a phalmentydd. Yn ystod yr haf ymgysylltwyd ar y darn hwn o</p>	

	<p>waith â theuluoedd a phobl ifanc a fynychodd gyfres o ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan Wasanaeth Ieuenctid y Fro.</p> <p>Er mwyn hyrwyddo'r ymrwymiad hirsefydlog i ddatblygu cymuned oed-gyfeillgar, mae'r BGC bellach yn ceisio dod yn aelod o Rwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd o Ddinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar. Yn dilyn ymgysylltu â phobl hŷn ledled y byd, mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi nodi 8 parth neu nodwedd sy'n elfennau canolog i gymunedau oed-gyfeillgar. Bydd y gwaith yn y Fro yn seiliedig ar hyn ac er mwyn cyflawni Statws Oed-gyfeillgar, mae angen gwneud llawer o waith yn gyntaf. Mae cais ar-lein y mae angen i'r BGC ei gwblhau. Bydd y cais yn cynnwys tystiolaeth o asesiadau sylfaenol, tystiolaeth o weithgareddau oed-gyfeillgar, logo sydd eisoes wedi'i ddylunio, tudalen we bwrpasol i ddal yr holl wybodaeth sydd wedi'i chreu, ac mae'r dudalen we yn fyw ar wefan y BGC. Mae angen ymrwymiad ysgrifenedig gan Arweinydd y Cyngor/Cadeirydd y BGC a'n Hyrwyddwr Pobl Hŷn hefyd, ac mae hyn yn cael sylw.</p> <p>Datblygwyd Siarter Oed-gyfeillgar hawdd ei deall sy'n cynnwys 8 ymrwymiad.</p> <p>Cynhaliwyd Arolwg BGC a Bro 50+ ar y cyd yn y Gwanwyn y llynedd a gofynnwyd cwestiynau'n canolbwyntio ar yr 8 parth, tra hefyd yn codi proffil y Fforwm 50+ i annog aelodaeth ehangach. Dyrannwyd cyllid o grant Oed-gyfeillgar Llywodraeth Cymru i nifer o sefydliadau ar draws y Fro sy'n cyfrannu tuag at nifer o'r parthau oed-gyfeillgar. Mae gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, partneriaid a rhanddeiliaid mewn gwahanol ddigwyddiadau wedi cael ei gynnal a bydd yn parhau i gael ei gynnal wrth symud ymlaen.</p> <p>Mae cynrychiolwyr partner y BGC wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn ac yn ddiweddar maent wedi datblygu Rhwydwaith Bro Oed-gyfeillgar.</p> <p>Canmolodd FK ddatblygiad y gwaith hwn a'r Siarter, gan esbonio bod segmentu a thargedu grwpiau oedran yn allweddol.</p> <p>Adleisiodd SH, TB, a LB y ganmoliaeth ar gyfer y gwaith hwn a'r Siarter.</p> <p>Cymeradwywyd y Siarter gan y partneriaid.</p> <p>Yn dilyn cymeradwyaeth y BGC o'r Siarter/Cais heddiw, bydd y cais ar-lein yn cael ei gyflwyno erbyn diwedd mis Mai i Sefydliad Iechyd y Byd trwy Swyddfa'r Comisiynydd. Mae gwaith i ddatblygu cynllun gweithredu a fydd yn cynnwys elfennau manylach y Siarter yn parhau.</p>	SCD
7.	<p><b>Gweithio gyda'n Cymunedau â Mwy o Amddifadedd</b></p> <p>Esboniodd TB, wrth weithio gyda'r ymgynghoriaeth gyfathrebu Grasshopper, fod ymarfer mapio cymunedol cychwynnol wedi'i gynnal mewn ardaloedd a nodwyd fel y rhai â'r amddifadedd mwyaf yn y Barri a bod cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu wedi'i ddatblygu.</p> <p>Esboniodd HM mai mapio cymunedol Grasshopper yw dechrau'r gwaith hwn. Pwysleisiodd y mapio fod yr argyfwng costau byw wedi gwaethygu problemau sy'n bodoli eisoes ac nad oes llawer o gyfleusterau na thrafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardaloedd hyn. Yn ogystal, nid yw pobl bob amser yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Mae angen ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gymuned i lywio gwaith wrth symud ymlaen. Mae £50,000 wedi'i sicrhau gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG) i greu swydd swyddog</p>	

	<p>datblygu cymunedol. Bydd ffocws ar ymgysylltu yn y swydd newydd a bydd yn bwrw ymlaen â gwaith y Cynllun Lles newydd.</p> <p>Dywedodd TB y bydd y rôl yn cael ei hysbysebu'n fuan a bod angen dod â grŵp o gydweithwyr partner y BGC at ei gilydd i wneud hwn yn brosiect cydweithredol i ffurfio grŵp llywio ar gyfer y prosiect. Bydd HM yn cysylltu â'r cydweithwyr.</p> <p>Atgoffodd EH y partneriaid am y gwaith sydd ei angen i gyflawni'r prosiect hwn a chanmolodd yr ymrwymiad i wneud hyn. Rhaid sicrhau dealltwriaeth o'r rhwystrau i ymgysylltu i'r cyhoedd a'r angen i gysylltu â phobl. Awgrymodd EH ddefnyddio grwpiau ffocws a chynnig gwobrau i bobl am gymryd rhan. Mae angen newid pendant hefyd yn dilyn y gwaith ymgysylltu.</p> <p>Canmolodd FK y dull seiliedig ar le a'r gwaith mapio asedau.</p> <p>Esboniodd RT fod rhaid i hyn ystyried popeth sy'n ffurfio iechyd cymuned. Mae'n ddarn cyffrous o waith ond bydd yn anodd iawn i wneud iddo ddigwydd ac mae angen llawer o waith ac ymdrech i gael pobl i gymryd rhan ac i barhau i gymryd rhan.</p> <p>Dywedodd LB fod angen i hyn gael y gymuned i gymryd rhan a'i helpu i wneud ei chynllun ei hun.</p> <p>Esboniodd SH fod y cyngor tref yn datblygu ei gynllun cymunedol ei hun ac y byddai'n barod i gynorthwyo mewn unrhyw ffordd gyda'r gwaith hwn.</p> <p>Esboniodd EM fod cynghorwyr lleol eisoes wedi ymgysylltu ond efallai y bydd angen mabwysiadu dull gwahanol ar gyfer pob un o'r tair cymuned. Mae sgwrs gyda rhanddeiliaid lleol wedi dechrau a bydd yn cael ei symud ymlaen nawr.</p> <p>Esboniodd TB yr angen i edrych ar gamau gweithredu byrdymor i ddangos cynnydd ond hefyd ar y mesurau hirdymor. Cefnogodd y partneriaid y gwaith a wnaed hyd yma a'r dull a amlinellwyd ar gyfer symud ymlaen.</p>	<p><b>HM</b></p>
<p><b>8.</b></p>	<p><b>Diweddariad Grŵp Rheoli Asedau/Siartr Hinsawdd</b></p> <p>Esboniodd HM fod gwaith gyda'r partneriaid yn cael ei wneud i adolygu'r cynnydd o ran cyflawni'r Siarter Hinsawdd. Mae llawer o weithgareddau da yn digwydd ar draws sefydliadau ac enghreifftiau o ddysgu cyffredin hefyd. Mae gwaith y Siarter Teithio yn mynd rhagddo'n dda ar draws y partneriaid ac mae thema gref o natur/bioamrywiaeth ar gyfer lles ac adnoddau naturiol. Bydd y gwaith hwn i gyd yn bwydo i mewn i'r adroddiad blynyddol. Esboniodd HM y potensial i'r partneriaid ddod at ei gilydd ar gyfer gweithdy a thrafod ffyrdd o fwrw ymlaen â'r ymrwymadau yn y Cynllun Lles.</p>	<p><b>HM</b></p>
<p><b>9.</b></p>	<p><b>Datblygu'r Adroddiad Blynyddol</b></p> <p>Esboniodd APP fod adroddiad blynyddol y BGC wedi dechrau cael ei ddiweddarau ac y gofynnwyd i gydweithwyr am ddiweddariadau ar gamau gweithredu. Bydd strwythur yr adroddiad yn aros yr un fath â'r llynedd, fodd bynnag, bydd ffocws ar edrych ymlaen a myfyrio ar y 5 mlynedd diwethaf gyda Chynllun Lles 2018-23 yn dod i ben.</p>	<p><b>APP</b></p>

	<p>Gofynnwyd i gydweithwyr hefyd am ddiweddariadau ar astudiaethau achos a fydd yn cael eu defnyddio i dynnu sylw at rywfaint o'r gwaith gwych sy'n digwydd. Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Y Gwasanaeth Ieuencid yn arwain gwaith i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol ymhlith pobl ifanc.</li> <li>- Prosiect Bwyd CF61 Llanilltud a'r gwaith o fewn Bwyd y Fro.</li> <li>- Ymhelaethu ar Atal</li> </ul> <p>Esboniodd APP y gallai'r adroddiad gynnwys rhai dyfyniadau gan y partneriaid fel rhan o'r adran fyfyrion, felly bydd yn cysylltu â'r partneriaid yn fuan.</p> <p>Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod ar 21 Mehefin i'w gymeradwyo, gyda'r drafft yn cael ei ddsbarthu cyn hynny i gael sylwadau.</p>	
<b>10.</b>	<p><b>Blaenraglen Waith 2023</b></p> <p>Dywedodd HM y rhoddir diweddariad ar greu lleoedd yng nghyfarfod mis Mehefin a gofynnodd i unrhyw eitemau agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf gael eu hanfon.</p>	<b>Pawb</b>
<b>11.</b>	<p><b>Unrhyw Fater Arall</b></p> <p>Dim materion eraill.</p>	
<b>12.</b>	<p><b>Dyddiad y cyfarfod nesaf – 21 Mehefin 2023</b></p> <p><b>Lansio Cynllun Lles y BGC 14 Mehefin 2023</b></p>	